



Bwletin GwE

CYDWEITHIO • DYSGU • LLWYDDO

🔊 Rhannwch ein Bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n rhestr bostio. 🔊

Diwrnod Dathlu'r Daith Ddiwygio - Marchnad Cwricwlwm i Gymru



22/06/2023



Venue Cymru, Llandudno



[COFRESTRU](#) erbyn 07/06/2023



Nodyn byr i'ch hysbysu y byddwn yn trefnu 'Marchnad Cwricwlwm i Gymru' i arweinwyr ysgolion y rhanbarth ar **22/06/2023 yn Venue Cymru, Llandudno**. Bydd yn gyfle i rannu datblygiadau Cwricwlwm i Gymru a dathlu llwyddiannau, gyda'r nod o rannu arferion sy'n dod i'r amlwg hyd yma ar draws MDPH. I gofrestru, cwblhewch y [ffurflen hon](#) erbyn 07/06/2023 i gadw lle ar gyfer hyd at 2 gynrychiolydd o'ch ysgol. [Rhagor o fanylion yma](#).

SWYDDI GYDA GwE

Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Arweiniol – Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion

CYFLE AM SWYDD BARHAOL NEU SECONDIAID DYDDIAD CAU: 10:00 AR 25/05/2023

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch ag **Alwyn Jones**, Cyfarwyddwr Cynorthwyol [alwynjones@gwegogledd.cymru] / 0300 500 8087].

Am ragor o fanylion a ffurflen gais, ewch i www.gwynedd.gov.uk neu ffonio 01286 679076.



Cydllynydd Cynorthwyol y Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Addysgu (LIDGA)

CYFLE AM SECONDIAID [MEDI 2023-AWST 2024] – RHAN-AMSER [2 DDIWRNOD YR WYTHNOS]

DYDDIAD CAU: 10:00 AR 25/05/2023

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â **Wendy Williams**, Cydllynydd LIDGA, [07485 207166 / wendywilliams@gwegogledd.cymru].

Am ragor o fanylion a ffurflen gais, ewch i www.gwynedd.gov.uk neu ffonio 01286 679076.



Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant: Uwchradd / Cynradd

CYFLE AM SWYDD BARHAOL NEU SECONDIAID DYDDIAD CAU: 10:00 AR 25/05/2023

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch ag:

- **Elfyn Jones**, Uwch Arweinydd Uwchradd
elfynjones@gwegogledd.cymru / 07557 759240
- **Euros Davies**, Uwch Arweinydd Cynradd
eurosdavies@gwegogledd.cymru / 07580 706766

Am ragor o fanylion a ffurflen gais, ewch i www.gwynedd.gov.uk neu ffonio 01286 679076.



Bryn Eirias, Ffordd Abergele,
Bae Colwyn, LL29 8BY



post@gwegogledd.cymru



0300 500 8087



www.gwegogledd.cymru



Canolfan Cefnogaeth GwE



g6.gwegogledd.cymru



@GwEGogleddCymru



GwE Gogledd Cymru

CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

Cynnig Dysgu Proffesiynol – Dysgu Digidol

DIGWYDDIAD	LLEOLIAD	DYDDIAD	CYFRWNG	COFRESTRU
Chwarae Tywod mewn Trê	Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	05/06/2023	English	COFRESTRU
3 Diben Asesu	Clwb Pêl-droed Porthmadog	06/06/2023	Cymraeg	COFRESTRU
Hyfforddiant ANG Ysgol Arbennig	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno	09/06/2023	English	COFRESTRU
Chwarae Tywod mewn Trê	Plas Menai, Caernarfon	12/06/2023	English	COFRESTRU
Heads of English Forum	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno	13/06/2023	English	COFRESTRU
Asesu Ar Fynediad	Plas Menai, Caernarfon	13/06/2023	Cymraeg	COFRESTRU
Asesu Ar Fynediad	Clwb Pêl-droed Porthmadog	14/06/2023	Cymraeg	COFRESTRU
Sesiwn Dysgu yn yr Awyr Agored i Athrawon sy'n Addysgu Disgyblion 3-8	Ysgol Pen Barras, Rhuthun	15/06/2023	Cymraeg	COFRESTRU
Asesu Ar Fynediad	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno	19/06/2023	Cymraeg	COFRESTRU
Asesu Ar Fynediad	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno	19/06/2023	English	COFRESTRU
Asesu Ar Fynediad	Gwesty'r Beaufort, Yr Wyddgrug	20/06/2023	English	COFRESTRU
Gweithdy Gwerthuso a CDY Ynys Môn	Ysgol Corn Hir, Llangefni	20/06/2023	Cymraeg	COFRESTRU
Asesu Ar Fynediad	Gwesty'r Beaufort, Yr Wyddgrug	20/06/2023	Cymraeg	COFRESTRU
Diwrnod Dathlu'r Daith Ddiwygio	Venue Cymru, Llandudno	22/06/2023	Dwyieithog	COFRESTRU
Sesiwn Dysgu yn yr Awyr Agored i Athrawon sy'n Addysgu Disgyblion 3-8	St Asaph VP Infant School, Llanelwy	27/06/2023	English	COFRESTRU
Sesiwn Dysgu yn yr Awyr Agored i Athrawon sy'n Addysgu Disgyblion 3-8	St Asaph VP Infant School, Llanelwy	27/06/2023	English	COFRESTRU
Fforwm Arweinwyr Llythrennedd Saesneg	Venue Cymru, Llandudno	29/06/2023	English	COFRESTRU
Gweithdy Mark Burns 'Her i Bawb'!	Venue Cymru, Llandudno	29/06/2023	English	COFRESTRU

RHAGLENNI CENEDLAETHOL

Rhaglen Datblygu Darpar CALU

Mae Cylch 7 y Rhaglen Datblygu Darpar CALU yn cychwyn ym mis Medi 2023.

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw **19/06/2023**. [Cliciwch yma](#) am wybodaeth am y Rhaglen a sut i ymgeisio.

Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Addysgu

'Cymorthyddion wrth eu Gwaith' - rhaglen hyfforddiant genedlaethol i gymorthyddion addysgu sydd yn eu swydd ers dros ddwy flynedd. *Ad-delir costau*. Am fwy o wybodaeth, [cliciwch yma](#).

Cyfle cyffrous i Gynorthwywyr Addysgu newydd!

Mae'r Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwywyr Addysgu i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwywyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, [cliciwch yma](#).

Dosbarth Google i Gynorthwywyr Addysgu

Banc o adnoddau ar gyfer datblygiad proffesiynol cynorthwywyr addysgu, yn cynnwys: Defnyddio eich Pasbort Dysgu Proffesiynol; Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu; Statws CALU; Cwricwlwm i Gymru; Adnoddau Hwb; Dysgu Cymraeg, ac ati.

Defnyddiwch eich e-bost Hwb i ymuno, gyda'r cod hwn: [ghlyepw](#).

Dyma ddolen i gyfarwyddiadau ar sut i gael mynediad at y dudalen drwy ddefnyddio eich cyfrif Hwb:

<https://cutt.ly/Cyfarwyddiadau-Google-Classroom-i-Gymorthyddion>

[Cliciwch yma](#) am gyfarwyddiadau dwyieithog ar sut i ddefnyddio Google Classroom, ac yma am droslais yn egluro beth sydd yn y Google Classroom: <https://cutt.ly/Troslais-Google-Classroom>

NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

Fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd



ARWEINIAD AR Y CRYNODEBAU SYDD ANGEN I YSGOLION EU PARATOI

Mae'r Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd yn ganllaw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwella ysgolion a fydd yn statudol ym mis Medi 2024.

Mae'r canllaw yn nodi disgwyliad i bob ysgol gyhoeddi crynodeb i rieni, sy'n rhannu gwybodaeth am gasgliadau hunanwerthuso'r ysgol, cynnydd yn erbyn blaenoriaethau blaenorol, blaenoriaethau gwella lefel uchel a'r cymorth allanol y mae ysgol yn ei gael i gyflawni ei blaenoriaethau.

Er mwyn paratoi at y gofyn hwn, mae criw o ysgolion, mewn cydweithrediad â GwE, wedi cyd-greu dogfennau enghreifftiol fel cymorth i ysgolion y Rhanbarth. Byddwn yn rhannu ffrwyth llafur y grŵp hwn mewn cyfarfodydd Teams rhithwir ar yr amseroedd a ganlyn:

	19/06/2023		15:45-16:30		Cymraeg		YMUNO
	21/06/2023		15:45-16:30		English		YMUNO
	27/06/2023		15:45-16:30		Cymraeg		YMUNO
	29/06/2023		15:45-16:30		English		YMUNO

Bydd y sesiynau yn cael eu recordio a bydd cyfle i drafod ymhellach â'ch Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt wrth i chi ystyried blaenoriaethau lefel uchel eich Cynllun Datblygu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Gweithdy Mark Burns 'Her i Bawb'!

 **29/06/2023**  **9:00-15:30**  **Venue Cymru, Llandudno**



Cynulleidfya: Arweinwyr Dysgu ac Addysgu Cynradd ac Uwchradd

Wedi'i gomisiynu gan GwE, bydd Mark Burns, awdur y llyfr '**Teaching Backwards**' yn rhannu cipolwg gwerthfawr ar sut i ddylunio a chyflwyno gwersi effeithiol sy'n ennyn diddordeb ac ysbrydoli dysgwyr. Bydd y gweithdy'n canolbwyntio'n benodol ar ddilyniant yn y cwricwlwm sy'n sicrhau cynnydd yn y dysgu. Mae syniad Mark o 'gynllunio tuag yn ôl' wedi cael effaith sylweddol ar gyflawniad a chymhelliant dysgwyr dros y blynyddoedd. Mae llefydd yn brin – un cynrychiolydd o bob ysgol. [I gofrestru, cliciwch yma](#).

Dyddiau agored – Y Gymraeg yn ein hysgol ni



DEWCH I WYBOD MWY AM SUT I DDATBLYGU'R GYMRAEG O FEWN EICH CWRICWLWM

AR GYFER YSGOLION CYNRADD

Cyfes o ddigwyddiadau yn arddangos sut mae gwahanol ysgolion wedi datblygu'r Gymraeg yn eu cwricwlwm. Mae pob sefydliad yn cynnig mewnwelediad i'w gweledigaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg ac yn enghreifftio'r hyn sydd ar waith mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Cofrestrwch eich diddordeb ar gyfer ymweld â'r ysgol sy'n gweddu orau i'ch categori ieithyddol chi yn ogystal â'ch taith chi wrth ddatblygu'r Gymraeg (mae llefydd yn brin).

BORE AGORED

DATBLYGU'R GYMRAEG MEWN YSGOL CYFRWNG SAESNEG

Cynhelir yn Ysgol Y Llan, Chwittfordd, Treffynnon (CH8 9AN)

Pryd: 07/07/2023 – 9:15-12:00

Cyfle i weld gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg ar waith a'i heffaith ar ddysgwyr, yn cynnwys sgwrs gan yr Uwch Dim Arwain, trafod gyda dysgwyr a staff addysgu a gweld dosbarthiadau a gwasanaeth.

Cynulleidfa: Aelodau o uwch dîm arwain ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg (mae llefydd yn brin)

Er mwyn cofrestru eich diddordeb i fynychu cwblhewch y ffurflen [hon](#)

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Rhian Roberts:

rhian.roberts@flintshire.gov.uk

Ni ddarperir cinio.



BORE AGORED

DATBLYGU'R GYMRAEG MEWN YSGOL CYFRWNG SAESNEG

Cynhelir yn Ysgol Gwynedd, Fflint (CH6 5DL)

Pryd: 29/06/2023 – 9:15-12:00

Cyfle i weld sut mae'r ysgol wedi cynllunio'n strategol ac uwchsgilio staff er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Bydd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o effaith y Cynllun Sabothol Cenedlaethol ar hyder staff i addysgu a gweinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg ac effaith hynny ar ddysgwyr.

Cynulleidfa: Aelodau o uwch dîm arwain ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg (mae llefydd yn brin)

Er mwyn cofrestru eich diddordeb i fynychu cwblhewch y ffurflen [hon](#)

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Rhian Roberts

rhian.roberts@flintshire.gov.uk

Ni ddarperir cinio.



BORE AGORED

Y GYMRAEG YNG NGHWRICWLWM YR YSGOL

(ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog)

Cynhelir yn Ysgol Llanllechid, Gwynedd (LL57 3EH)

Pryd: 12/07/2023 - 9.30-12.00

Cyfle i weld gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg ar waith a'i heffaith ar ddysgwyr. Bydd y bore yn cynnwys cyflwyniad gan yr Uwch Dim Arwain, trafod gyda dysgwyr a staff addysgu ac arsylwi sesiynau ymarferol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Cynulleidfa: Aelodau o uwch dîm arwain ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (mae llefydd yn brin)

Er mwyn cofrestru eich diddordeb i fynychu cwblhewch y [ffurflen hon](#)

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r pennaeth:

Gwenan Davies Jones 01248 600 600

Gwenan.DaviesJones@llanllechid.ysgoliongwynedd.cymru

Ni ddarperir cinio.



DIWRNOD AGORED

Y GYMRAEG YNG NGHWRICWLWM YR YSGOL

(ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog)

Cynhelir yn Ysgol Croes Atti, safleoedd Glannau Dyfrdwy (CH5 1JD) a'r Fflint (CH6 5DU) – ysgol ar ddwy safle a'r diwrnod yn cynnwys ymweliad â'r ddwy.

Pryd: 15/06/2023 - 9.30-2.30

Cyfle i weld gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg ar waith a'i heffaith ar ddysgwyr, yn cynnwys sgwrs gan yr Uwch Dim Arwain, trafod gyda dysgwyr a staff addysgu a gweld dosbarthiadau ac amser chwarae.

Cynulleidfa: Aelodau o uwch dîm arwain ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (mae llefydd yn brin)

Er mwyn cofrestru eich diddordeb i fynychu cwblhewch y [ffurflen hon](#)

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r ysgol:

Prifcroesatti@Hwb.cymru.net

Ni ddarperir cinio.



Asesiadau Personol – Negeseuon Rhanbarthol

[Cliciwch yma](#) am yr wybodaeth a'r astudiaethau achos diweddaraf

Cyhoeddi gwaith ymchwil newydd gydag ysgolion GwE

ASESU YSTOD A SAIL DYSTIOLAETH YMYRAETHAU MEWN CLWSTWR O YSGOLION

Mae'n bleser gan GwE weld bod canlyniadau un o'n prosiectau ymchwil ar y cyd wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar mewn cyfnodolyn a adolygwyd gan gymheiriaid, *sef Review of Education* ac mewn blog gan Gymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA). Gwnaethpwyd y gwaith hwn gydag ymchwilwyr o'r Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor yn rhan o ymdrechion parhaus GwE i seilio polisïau ac arferion ar ddulliau sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth. [Cliciwch yma am ragor o fanylion.](#)

Prosiectau Darllen GwE

Bu GwE yn gweithio gydag ymchwilwyr y Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor i roi cymorth gyda dysgu darllen effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym wedi crynhoi strwythur y cymorth hwn mewn [trosolwg polisi i ysgolion](#) ac mae'n bleser gennym wahodd ysgolion i gael hyfforddiant ar dri o'r prosiectau hyn, fel a ganlyn:

[Hyfforddiant am ddim i ysgolion gyflwyno rhaglen llythrennedd CA2 i ddysgwyr sy'n cael trafferth wrth ddarllen. Rhagor o wybodaeth.](#)

Adnoddau i Rieni a Gofalwyr

[Helpu Eich Plentyn i Ddysgu – CYNRADD / BLYNYDDOEDD 7 AC 8](#)

ADNODDAU: [CYMRAEG](#) | [ENGLISH](#)



[Helpu Eich Plentyn yn ei Ardddegau i Ddysgu – BLYNYDDOEDD 9, 10 AC 11](#)

ADNODDAU: [CYMRAEG](#) | [ENGLISH](#)



HOLWCH YMGYNGHORYDD CEFNOGI GWELLIANT EICH YSGOL AM GÔD TALEB.

RADY – Codi Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Difreintiedig

Mae Rhaglen RADY yn ffordd o gau'r bylchau sydd yn targedu 'system nerfol ganolog' ysgol yn uniongyrchol - ei systemau gosod targedau, tracio a monitro. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o strategaethau eraill i gau'r bwllch, mae RADY wedi'i bwriadu ar gyfer uwch reolwyr ac athrawon mewn ysgolion. Datblygwyd RADY yn ardal Wirral yn 2013 i ymateb yn uniongyrchol i ddiffyg nas gwelwyd cyn hynny mewn systemau ysgolion, diffyg all gynnal y bwllch a llesteirio ymdrechion i'w leihau oni bai y caiff sylw. Ewch i challengingeducation.co.uk am fwy o wybodaeth.

Mae GwE yn gofyn i glystyrau o ysgolion fynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn prosiect peilot RADY. Byddai gofyn i bob ysgol yn y clwstwr ymrwymo'n hirdymor i'r prosiect. Bydd y peilot ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn rhad ac am ddim i'r ysgolion a fydd yn cymryd rhan. Am fwy o wybodaeth ac i fynegi diddordeb, anfonwch e-bost at catherinemcnamara@gwegogledd.cymru.

Dyfodol Byd-eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol

[Canolfan Cefnogaeth GwE: Ieithoedd Rhyngwladol – Sector Cynradd](#) a sector Uwchradd: gwybodaeth, arweiniad, cyfleoedd ac adnoddau - <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgradd-adnoddau-gwe>

Newyddlenni

Cymraeg: [Cynradd](#) | [Uwchradd](#) English: [Primary](#) | [Secondary](#)

YDYCH CHI.....

...EISIAU CODI **PROFFIL IEITHOEDD** YN EICH YSGOL?

...EISIAU **TANIO BRWDFRYDEDD** EICH DYSGWYR AM **IEITHOEDD A DIWYLLIANNAU**?

...EISIAU **HELU EICH DYSGWYR DDATBLYGU SGILIAU HANFODOL**?

...EISIAU **CYNYDDU MAINT EICH DOSBARTHIAU IRH TGAU**?

GALL MENTORA ITM EICH HELPUI!

CLICIWCH YMA AM FWY O WYBODAETH AC I WNEUD CAIS



Cystadleuaeth 'Mamiaith, Ail Iaith'

Mae cystadleuaeth boblogaidd [Mamiaith, Ail Iaith](#) yn dod yn ôl i Gymru. Mae Llwybrau at Ieithoedd Cymru yn gwahodd cynigion gan ddisgyblion Blwyddyn 4 i Flwyddyn 13!

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion: 28/05/2023

NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU



Rhaglen Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl E-Ddysgu MIND

Mae'r Consortia wedi cydweithio â Mind Cymru i roi mynediad i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes addysg ledled Cymru at becyn e-ddysgu ymwybyddiaeth iechyd meddwl rhyngweithiol 45 munud am ddim. Er mwyn cael mynediad at y rhaglen, cwblhewch y [ffurflen hon](#).

GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

Her Buddsoddi – Ysgol Busnes Bangor



07/07/2023



Dymuna Ysgol Busnes Bangor wahodd myfyrwyr Blwyddyn 11 a 12 i gystadlu yn eu her buddsoddi a fydd yn profi eu gallu i fuddsoddi trwy fasnachu mewn efelychiad rhithwir o'r farchnad stoc. Gall pob ysgol ddod ag uchafswm o 10 disgybl [gan ffurfio pum tîm]. [Rhagor o fanylion i'w cael yma](#).

MA Addysg [Cymru] Cenedlaethol



Os ydych chi'n ysgol arweiniol neu rwydwaith gyda Phrifysgol Bangor, bydd Llywodraeth Cymru yn talu ffioedd dysgu llawn unrhyw aelod staff sydd â diddordeb yn y rhaglen hon. I'r ysgolion hynny nad ydynt yn cymryd myfyrwyr Bangor, mae'n bosib y gallai cymorthyddion dysgu, CGADY ac athrawon yn eu trydedd hyd at eu chweched blwyddyn o'u gyrfa, fod yn gymwys i gael cyllid. Am fwy o wybodaeth, gofynnir yn garedig i chi anfon e-bost at kaydee.owen@bangor.ac.uk. Mae'r rhaglen hon yn wirioneddol drawsnewidiol ac yn arwain y sector, gwnewch gais yn fuan i gychwyn mis Medi 2023. Cewch fwy o wybodaeth [yma](#).

Cynllun Peilot Undebau a'r Byd Gwaith



Mae TUC Cymru wedi ymuno â Llywodraeth Cymru i lansio'r cynllun peilot Undebau a'r Byd Gwaith, gyda tharged i sicrhau bod 35 o ysgolion ledled Cymru wedi cofrestru erbyn diwedd y flwyddyn academaidd.

Mae'r cynllun peilot yn darparu adnoddau o ansawdd uchel i athrawon sy'n canolbwyntio ar hawliau pobl ifanc yn y gwaith, manteision bod mewn undeb llafur, a'r byd gwaith sy'n newid. Mae hwn yn gynllun peilot amserol gan fod Gyrfaedd a Phrofiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith yn thema allweddol a thrawsbynciol ar gyfer y cwricwlwm newydd yng Nghymru. [Manylion llawn ar gael yma](#).

Cynhadledd E-sgol 2023



03/07/2023



14:30-16:30



Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, Maesteg, CF34 9RW / Rhithwir

Bydd y gynhadledd e-sgol yn rhoi cyfle i chi glywed am y gwahanol fentrau y mae e-sgol yn gweithio arnynt, gan gynnwys Ymlaen Gyda'r Dysgu, Carlam Cymru a'n Cymuned Dysgu Proffesiynol.

Cynhelir y gynhadledd yn [Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd](#), ond bydd y cyflwyniadau'n cael eu darlledu'n fyw er mwyn i fynychwyr o bob rhan o Gymru allu dilyn. Ar ôl y cyflwyniadau, bydd y mynychwyr yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn cael cyfle i ymgysylltu ag aelodau o dîm e-sgol ac ymweld ag amrywiol stondinau marchnad a fydd yn dangos beth yw e-sgol a sut mae'n gweithio.

Ewch i wefan e-sgol i ganfod mwy: <https://e-sgol.cymru/cy/cynhadledd-e-sgol-2023/>



Trauma Informed Schools – Cwrs ANG Gogledd Cymru

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth, dyddiadau a sut i [archebu lle](#) ar y sesiynau sydd i ddod.



BookTrust: Cylchlythyr Ysgolion Cynradd

Yn y rhifyn hwn, mae athrawon ac arweinwyr arbenigol mewn addysg yn rhannu'r hyn maen nhw'n gredu sydd yn gweithio i helpu plant i ddarganfod cariad at ddarllen. Gallwch hefyd gofrestru eich ysgol ar gyfer eu digwyddiad awduron nesaf, gweld sut mae un ysgol gynradd wedi defnyddio Pyjamarama a mwy! [Cliciwch yma i'w ddarllen](#).

Education Support: Cysylltu â'ch Ymdeimlad o Bwrpas

Ymunwch â gweithdy nesaf *Education Support* ar gyfer **cynorthwywyr addysgu a chynorthwywyr cymorth dysgu yng Nghymru** sy'n ymdrin â meithrin cadernid a chysylltu â'ch ymdeimlad o bwrpas. Fe'i cynhelir 06/06/2023 am 16:00.

Yn ystod y gweithdy rhithwir hwn byddwch yn edrych ar:

- Yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth ymdeimlad o bwrpas
- Beth mae ymdeimlad o bwrpas yn ei olygu i chi
- Beth sy'n eich cysylltu chi ac yn eich datgysylltu chi o'ch pwrpas
- Meithrin cadernid ac optimistiaeth
- Ymddygiadau a chyfathrebu
- Empathi, derbyn a gwerthfawrogi

Sicrhewch le trwy gofrestru nawr neu rhannwch yr wybodaeth hon â chyd-weithwyr yng Nghymru a allai elwa ar y sesiwn hon. Sylwch, mae llefydd yn brin ar y gweithdy hwn a ariennir gan Llywodraeth Cymru. Felly cofrestrwch nawr: <https://bit.ly/3NXvLJR>

Dosbarthiadau Meistr Iechyd Meddwl a Lles gan Education Support

A ydych chi wedi manteisio ar wasanaethau cymorth *Education Support* a ariennir yn llawn ar gyfer staff ysgol yng Nghymru?

Mae'n bleser gennym rannu manylion am sut i gofrestru ar gyfer ein dosbarthiadau meistr a'n gweithdai lles a chymorth i staff ysgol yng Nghymru, a ariennir yn llawn. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Rhaglen MA Addysg Genedlaethol (Cymru)

LLEFYDD AR GAEL AR GYFER DECHRAU YM MIS MEDI 2023 AR Y RHAGLEN MA ADDYSG GENEDLAETHOL [CYMRU]

Mae'n bleser gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam fod yn rhan o'r rhaglen Meistr mewn Addysg (Cymru) mewn cydweithrediad â chyd-weithwyr o brifysgolion ledled Cymru. Mae'r MA Addysg (Cymru) ar gael i ymarferwyr addysg ledled Cymru ac mae lleoedd wedi'u hariannu'n llawn ar gael ar gyfer dechrau mis Medi 2023, yn amodol ar fod yn gymwys.

I gael rhagor o wybodaeth am gynnwys y rhaglen, gofynion mynediad a chymhellion ariannol posibl, ewch i'n gwefan yn [MA Addysg Genedlaethol \(Cymru\)](#) Prifysgol Glyndŵr Wrecsam neu cysylltwch â Kelly Smith Arweinydd Rhaglen ar k.smith2@glyndwr.ac.uk neu 01978 293327.



Estyn: Arolygu ar gyfer y Dyfodol (2024-2030)



MAE ESTYN YN ADOLYGU SUT BYDD YN AROLYGU ADDYSG A HYFFORDDIANT O 2024 YMLAEN

Mae'n adeiladu ar y newidiadau a wnaed eisoes – sef dileu graddau crynodedol ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd a arolygir a chanolbwyntio mwy ar gryfderau a meysydd i'w datblygu – a bydd yn ymgynghori'n ehangach i glywed syniadau pawb. Dysgwch fwy am ddull Estyn: [Arolygu ar gyfer y dyfodol \(2024–2030\) | Estyn \(llyw.cymru\)](#)



Cynhadledd Arweinyddiaeth Genedlaethol Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth Gwrth-hiliaeth DARPL



08/06/2023



10:00 – 15:30



Canolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd, CF14 3NY

Caiff y digwyddiad hwn ei gynnal gan DARPL mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, CGA, NAEL, y *Black Leadership Group* a'r consortia rhanbarthol. [Cliciwch yma](#) am y manylion llawn ac i gofrestru.

Gwersi Byw NFU Cymru

Cliciwch ar y llun isod i gofrestru.



Ewch â'r
daflen hon
i'ch ysgol
gynradd leol



Dydd Mercher 21 Mehefin 2023 11yb (Saesneg) – 2yh (Cymraeg)

Mae NFU Cymru ac NFU Education wrth eu bodd i ddod â buarth y fferm i'ch ysgol gynradd chi, gyda gwersi byw rhyngweithiol i ddathlu Wythnos Ffermio Cymreig. Ymunwch â ni i weld oen yn cael ei eni, gwyliwch ddafad yn cael ei chneifio, helpwch Erin y ffermwr i gasglu ei phraidd a gofynnwch eich cwestiynau iddi hi.



Cofrestrwch am ddim:

livestream.co.uk/the-lamb-diaries



Sganiwch
y cod qr

